**Dalier Sylw ar Eitem 19.9 isod.**
**Bydd y Cyngor yn cyfarfod ar y nos Iau olaf o bob mis yn y dyfodol.**

# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 26ain Mehefin 2014.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, Siôn Ifans, H.D.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, G.Wigley, Mrs Ann Williams, Mrs Gwenfair Davies a'r Cyng. G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Mri:- D.G.Jones, J.P.Jones, W.N.Owen, A.O. Griffiths, H.M.Williams, a Mrs Gwen Lloyd.

**18. Cofnodion cyfarfod 30ain Mai 2014.**
Wedi i'r clerc ymddiheuro ac egluro fod eitem 17.1 yn ychwanegol, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**19. Materion yn codi o'r cofnodion.**
71.9 Gan y bydda Einion Jones yn defnyddio Michael Byrnes i osod y tarmac, nid oedd y clerc wedi cysylltu'n uniongyrchol efo Michael Byrnes nes cael cefnogaeth y Cyngor. Y clerc i gysylltu efo Michael Byrnes, Paul Standing ac Evans Bros am brisiau.
105.95.2 Ysgol Hyddgen. Darllenwyd e-bost oddi wrth gadeirydd cysgodol ysgol Bro Hyddgen yn cynnig dod i gyfarfod o'r Cyngor i egluro'r dewis o enw. Wedi eglurhad pellach gan y Cyng. Fychan, pasiwyd peidio derbyn y cynnig.
111.5 Ateb yr Adran Gynllunio i'r diweddaraf yn yr Anrheg, Cemaes. Y Cyngor Sir mewn trafferthion yn ceisio cael i'r deiliaid symud o'r safle.
8. Wedi i'r clerc gysylltu efo clerc Dinas Mawddwy ac ysgrifennydd Cemaes, mae'r hyn a awgrymwyd yn y Cyfarfod Blynyddol eisoes yn cael ei weithredu yng Nghemaes a phenderfynwyd dilyn y canllawiau o hyn ymlaen sef gwerthi man bedd i unrhyw un sydd ei angen am y pris cyfredol fel blaendal ac yna pan fydd angen y lle bedd, fod y Cyngor yn gofyn i'r teulu am y gwahaniaeth rhwng y blaendal a'r pris fydd yn bodoli'r adeg honno.
9. Trafodwyd ymhellach y noson fwyaf cyfleus i gyfarfod gyda'r mwyafrif yn bleidiol i'r nos **Iau olaf o bob mis,** ac eithrio Awst a Rhagfyr.
11. Tynnwyd lluniau o rai cynghorwyr i'w cynnwys ar y wefan.
16.4 Dim ateb oddi wrth Y Prif Weinidog i'n gwrthwynebiad i gwtogi'r gwasanaeth ym Mronglais.
17.1 Dyfodol safle Potters ym Machynlleth. Darllenwyd llythyr o brif weithredwr y Cyngor Sir a phasiwyd anfon awgrymiadau iddo ar gyfer y dyfodol er mwyn ceisio cadw'r gwasanaeth ym Machynlleth ac osgoi tipio anghyfreithlon.
i) Codi tâl bychan ar bob un sy'n dod a nwyddau i'r safle.
ii) Gofyn i gynghorau sir Gwynedd a Cheredigion am gyfraniad tuag at gynnal y safle.
iii) Trefnu fod y safle ar agor dau neu dri diwrnod bob wythnos yn unig.
17.3 Mae gwaith ychwanegol wedi ei gyflawni ar ffordd Llanwrin.
17.4 Y canlynol wedi bod yn gynghorwyr yn ddi-dor ers nifer o flynyddoedd:- Etholwyd Tom Thomas a Hugh Jones yn 1964 a Geraint Wigley yn 1968: John Pughe Jones yn 1987: Huw Williams yn 1991 a chyfetholwyd Mrs Ann Williams yn 1997 a William Owen yn 1999. Nid oes etholiad wedi bod yn y Gymuned ers dros ugain mlynedd.

**20. Cynllunio.** Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**21. Eitemau i'w talu.**
21.1 Yswiriant y Cyngor am y flwyddyn i ddod. Zurich £633.93
21.2 Cyflog a chostau tri mis y clerc yn £742.30.
21.3 Tun o baent i Deryck Lewis ar gyfer y meinciau. £35.

**22. Cais am arian.** Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**23. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
23.1 Awgrymodd y Cyng. Fychan y bydd Ysgol Glantwymyn yn gofyn am arian yn y dyfodol agos i gynnal y nifer presennol o athrawon yn yr ysgol. Cytunwyd i ystyried y mater wedi derbyn cais swyddogol.

**24. Gohebiaeth.**
24.1 Cylchlythyr SARPA.
24.2 Bydd y cwmni sy'n bwriadu codi fferm wynt yn ardal Lluest y Graig, Llanerfyl yn cynnal nosweithiau agored i'w holi ynglŷn â'r cynllun yn Llanbrynmair nos Wener a Charno nos Sadwrn.
24.3 Cyfarfod agored yn Llangurig dydd Iau 3ydd Gorffennaf parthed datblygu fferm wynt leol.
24.4 Cynllun y Cyngor Sir i'w ddefnyddio i benderfynu pryd y bydd gwaith atgyweirio'n cael ei wneud i briffyrdd Powys.
24.5 Rhifyn 25 o'r Llais o Un Llais Cymru.
24.6 Arolwg ar anghenion dysgu ychwanegol. Cysyllter ar www.powys.gov.uk/index.php?id=16906&L=0
24.7. Cynllun Powys yn Un 2014-2017.
24.8 Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon.

**25. Unrhyw fater arall.**
25.1 Angen mesurau i arafu'r drafnidiaeth trwy Lanwrin.
25.2 Wedi ail wneud y ffordd ar gornel Gambïo, Cemaes mae dŵr glaw yn gorlifo i'r cae yn hytrach nag i'r gwter arferol.
25.3 Darllenwyd e-bost oddi wrth Andy Rowlands ynglŷn ag enwau llefydd. Awgrymir iddo gysylltu efo Bedwyr Fychan sydd wedi bod yn ymwneud â'r testun.
25.4 Twll yn y ffordd B4404 rhwng Hendreseifion a Glanfechan.
25.5 Arwydd ar yr A470 yng Nghwmlline yn tarfu ar welediad modurwyr sy'n dod i mewn i'r brifforddd gyferbyn â Phenrhiw.
25.6 Mae camerâu wedi eu gosod yng Nglantwymyn sy'n galluogi'r heddlu i gofnodi rhifau moduron.
25.7 Addawodd Geraint Wigley y byddai'n trefnu cyfarfod safle yn y fynwent Darowen i edrych ar sefyllfa'r coed sy'n gordyfu yno.
25.8 Angen amcan bris oddi wrth Mr Glen Ward i glirio'r drain a'r mieri ym mynwent Llanwrin.
25.9 Siomedig oedd y gefnogaeth o'r ardal i gyfarfod agored gan y Bwrdd Iechyd ym Machynlleth.
25.10 Atgoffa'r Cyngor Sir am y coed sy'n gordyfu ger Maesafon, Cwmlline a Glandyfi, Llanwrin.
25.11 Gofyn cyngor yr adran Gynllunio ar y nifer o siediau sy'n cael eu codi ym Mhenrhiw.
25.12 Atgoffa *"Open Reach"* o'r cebl rhydd ger Mathafarn.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau 31ain Gorffennaf 2014.**